# HYSBYSIAD ARCHWILIO CYFRIFON CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31/03/24

**Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

Mae modd i rywun archwilio a gwneud copïau o’r cyfrifon uchod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ynghyd â’r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy’n perthyn i’r cyfrifon hynny, os yw’n dymuno gwneud hynny. Gellir gwneud hyn yn y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael yng Nghyngor Sir Ceredigion rhwng 9 Medi a 4 Hydref 2024, o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos, rhwng 10.00 y bore a 4.00 y prynhawn. Gan fod swyddfeydd y Cyngor ar gau, dylech gysylltu â df.technicians@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881 yn y lle cyntaf i drefnu apwyntiad, os hoffech archwilio’r cyfrifon.

Bydd y Datganiad o Gyfrifon ar gael hefyd ar ein gwefan: www.ceredigion.gov.uk

Ar 07/10/2024 ac ar ôl y dyddiad hwnnw, gall etholwr llywodraeth leol wneud cais i gwrdd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu’i gynrychiolydd (Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd) a’i holi am y cyfrifon. Rhaid i hawl yr etholwr i wrthwynebu'r cyfrifon gael ei gyflwyno’n ysgrifenedig i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth) gan nodi ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad.